**Date**/Dyddiad 14 Ionawr 2019
**Ask for**/Gofynwch am M Matthews
**Telephone**/Rhif ffôn 01446 - 709727
**Fax**/Ffacs
**e-mail**/e-bost Admissions@valeofglamorgan.gov.uk
**Your Ref**/Eich Cyf
**My Ref**/Cyf MM/ADM

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

**Rhieni plant sy'n mynychu ysgolion cynradd ar hyn o bryd, ac eithrio plant blwyddyn 6**

Annwyl Riant,

**TREFNIADAU DERBYN I'R YSGOL 2020/2021 CYNGOR BRO MORGANNWG**

Mae Cyngor y Fro yn ymgynghori â rhieni ar newid arfaethedig i drefniadau derbyn i ysgolion uwchradd cymunedol gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021.Nid yw'r newid a gynigir yn effeithio ar Ysgol Stanwell ac Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn gan mai nhw yw eu hawdurdod derbyn eu hunain ac sy'n penderfynu eu trefniadau ar wahân.

Mae'r Cyngor yn ystyried newid y trefniadau derbyn a'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion uwchradd cymunedol er mwyn sicrhau y bydd y rhai sy'n byw yn nalgylch yr ysgol yn cael blaenoriaeth uchel o ran cael eu derbyn i ysgol pan fo mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael.Bydd y newid arfaethedig yn blaenoriaethu'r rhai sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac yn cael gwared ar yr ysgol gynradd fwydo fel maen prawf gordanysgrifio. Bydd hyn yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn yr ardal i gael lle yn eu hysgol leol.

Mae'r trefniadau derbyn sydd ar waith ar hyn o bryd yn blaenoriaethu plant sy'n symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgol fwydo ac yn byw yn nalgylch yr ysgol. Byddai'r newid yn atgyfnerthu'r sefyllfa i sicrhau y gall plant fynychu eu hysgol uwchradd leol, yn arbennig gan fod nifer o ddatblygiadau tai mawr yn arwain at gynnydd yn y galw am leoedd ysgol uwchradd mewn ardaloedd penodol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol pan fo hynny'n bosibl. Mae Fforwm Derbyn y Cyngor wedi ystyried y cynnig hwn.

Ni fyddai'r trefniadau diwygiedig yn atal rhieni rhag ymgeisio am le mewn ysgol o'u dewis. Bydd yr un opsiynau ar gael, ond pan fo gormod o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgol, byddai byw mewn dalgylch ysgol yn flaenoriaeth uchel wrth ddyrannu lleoedd.

Amgaeaf gopi o'r trefniadau cyfredol ac arfaethedig a gallwch eu gweld ar lein hefyd yn www.valeofglamorgan.gov.uk/secadmissions Mae eich barn yn bwysig i ni ac mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni

Gallwch:

- Gwblhau ffurflen ymateb ar-lein yn: www.valeofglamorgan.gov.uk/secadmissions
- Cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb wedi'i hatodi i gyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen
- E-bostio'r ffurflen neu'ch sylwadau i Admissions@valeofglamorgan.gov.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r adran derbyn i ysgolion ar 01446 709725/727/844 neu e-bostiwch Admissions@valeofglamorgan.gov.uk

Yn gywir

*M Matthews*

M Matthews (Mr)
Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau

**Cwestiynau Cyffredin**

**Beth yw'r prif newidiadau i'r polisi derbyn?**

Cynigir newid y system ysgol fwydo gyfredol i system sy'n rhoi mynediad â blaenoriaeth i ysgol uwchradd gymunedol i blant sy'n byw yn y dalgylch pan fo mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael. Ni fydd hyn yn golygu na all disgyblion fynychu ysgol uwchradd os ydynt yn byw y tu allan i'w dalgylch. Byddai hyn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n dod i law a gweithredu'r meini prawf gordanysgrifio.

**Pa ysgolion gaiff eu heffeithio gan y newid a gynigir?**

Mae'r newid a gynigir yn effeithio ar ysgolion uwchradd cymunedol, sef: Ysgol Gyfun y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Ysgol Uwchradd Pencoedtre, Ysgol Gyfun Sant Cyres, Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwwg.

**A fydd y newid hwn yn effeithio ar Ysgolion Uwchradd Sefydledig ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir?**

Na. Yr ysgolion dan sylw yw Ysgol Stanwell ac Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn sy'n gweithredu fel eu hawdurdod derbyn eu hunain. Bydd ceisiadau derbyn i ysgolion yn parhau i gael eu gwneud i'r ysgolion dan sylw.

**A fydd dalgylchoedd ysgolion uwchradd yn newid?**

Rydym yn cynnig cadw dalgylchoedd presennol ein hysgolion uwchradd ar gyfer rownd dderbyn 2020/2021. Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion eleni a byddai'r adolygiad hwnnw'n destun ymgynghoriad ac yn cael ei adlewyrchu yn nhrefniadau derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2020.

**Ydy hyn yn effeithio ar y broses ymgeisio ar gyfer ysgolion uwchradd?**

Nac ydy. Gall rhieni ymgeisio am ysgol o'u dewis yn y ffordd arferol a rhoddir meini prawf gordanysgrifio ar waith fel sy'n briodol pan fo mwy o ymgeiswyr na'r lleoedd sydd ar gael.

**A fydd y newid hwn yn berthnasol i blant sy'n mynychu ysgolion bwydo cysylltiedig ar hyn o bryd?**

Bydd, ac eithrio plant sydd ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd. Os cymeradwyir y newidiadau, byddent yn effeithio ar dderbyn i ysgolion uwchradd ar gyfer mis Medi 2020.

**A fydd hawl gan ddisgyblion i gael trafnidiaeth am ddim?**

Bydd y trefniadau cludiant i'r ysgol presennol yn aros yr un fath ar gyfer ysgolion uwchradd. Bydd plant sy'n byw thair milltir i ffwrdd neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch ddynodedig neu agosaf yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol am ddim.

**A fydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud newidiadau eraill i'w bolisi derbyn?**

Nid oes unrhyw newidiadau eraill ar y gweill ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

**Amserlen**

- Ymgynghoriad yn dod i ben ar 22 Chwefror 2019
- Ystyried sylwadau a chyflwyno adroddiad i'r Cabinet Mawrth 2019
- Rhaid penderfynu ar drefniadau derbyn erbyn 15 Ebrill 2019
- Os mabwysiadir y newidiadau i'r polisi derbyn, byddant yn dod i rym ar 1 Medi 2020

**Dyma grynodeb o’r meini prawf presennol ar gyfer derbyn i ysgolion pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd, a’r rhai a gynigir.**

Bydd plant â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, pan fo’r ysgol wedi ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, yn cael eu derbyn cyn cymhwyso’r meini prawf sydd ar waith pan fo mwy o alw nag o leoedd.

## Trefniadau Derbyn i Ysgolion Presennol ar gyfer pontio o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd

### Meini prawf i ddyrannu llefydd mewn ysgolion uwchradd pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd, yn nhrefn blaenoriaeth.

1.Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.
2. Plant sydd yn y grŵp oedran sy’n dod o ysgol gynradd fwydo’r ysgol uwchradd, sy’n byw yn ei dalgylch daearyddol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd o’r categori hwn yn unig, defnyddir (5), (6) a (7) i'w rhoi yn ôl trefn blaenoriaeth.
3. Plant yn y grŵp oedran sy’n dod o ysgol gynradd ac sy’n byw yn barhaol yn nalgylch diffiniedig yr ysgol uwchradd ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis neu nad ydynt yn byw’n barhaol yn nalgylch diffiniedig yr ysgol gynradd ond sydd wedi bodloni’r cyngor (trwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig briodol megis cytundeb rhentu neu gadarnhad prynu tŷ) ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn y ffurflenni dewis, y byddant yn symud i’r dalgylch erbyn dechrau’r tymor ysgol y mae’r cais yn berthnasol iddo. Pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd o’r categori hwn yn unig, defnyddir (5), (6) a (7) i'w rhoi yn ôl trefn blaenoriaeth.
4. Plant sydd yn y grŵp oedran sy’n dod o ysgol gynradd fwydo’r ysgol uwchradd, ond nad ydynt yn byw yn ei dalgylch daearyddol diffiniedig ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis. Pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd o’r categori hwn yn unig, defnyddir (5), (6) a (7) i'w rhoi yn ôl trefn blaenoriaeth.
5. Disgyblion y mae ganddynt seiliau meddygol neu gymdeithasol cymhellol. Pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd o’r categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (6) a (7) i'w rhoi yn ôl trefn blaenoriaeth.
6. Disgyblion y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol, blwyddyn 8 i 11 yn unig. Yr ieuengaf fydd yn cael y flaenoriaeth uchaf.
7. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion mewn perthynas â disgyblion eraill, rhydd y Cyngor ystyriaeth benodol i agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol uwchradd, a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; bydd y rhai sy'n byw'n agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae’r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo’r pellter o’r cartref i’r ysgol.

## Trefniadau Derbyn i Ysgolion Arfaethedig ar gyfer pontio o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd 2020/2021

### Meini prawf i ddyrannu llefydd mewn ysgolion uwchradd pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd, yn nhrefn blaenoriaeth.

1. Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.
2. Plant sy’n byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig derbyn y ffurflenni dewis. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os oes rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i’w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.
3. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch penodol yr ysgol, y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol erbyn dechrau'r tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i’w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.
4. Plant y mae sail feddygol neu gymdeithasol gref, ym marn y Cyngor, dros eu derbyn i’r ysgol uwchradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o’r fath). Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (5) a (6).
5. Disgyblion y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol ac a fydd ar gofrestr yr ysgol (blynyddoedd 8 i 11) yn ystod y flwyddyn academaidd y câi’r plentyn ei dderbyn. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr o’r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu llefydd mewn perthynas ag oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf a gaiff y flaenoriaeth uchaf.
6. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion mewn perthynas â disgyblion eraill, rhydd y Cyngor ystyriaeth benodol i agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol uwchradd, a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; bydd y rhai sy'n byw'n agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae’r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo’r pellter o’r cartref i’r ysgol.

**PROFORMA YMGYNGHORI AR GYFER SYLWADAU MEWN PERTHYNAS Â:**

**THREFNIADAU DERBYN I'R YSGOL 2020/2021 CYNGOR BRO MORGANNWG**

**NEWID MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO TREFNIADAU DERBYN O'R YSGOL GYNRADD I UWCHRADD**

**DYDDIAD CAU'R YMGYNGHORIAD: 22 CHWEFROR 2019**

Ydych chi o blaid y newid arfaethedig i drefniadau derbyn i ysgolion uwchradd?
YDW ☐
NAC YDW ☐

Sylwadau:-

Enw a Chyfeiriad:-

**Sylwer:** Mae'r daflen hon at ddibenion ymgynghori'n unig. Caiff yr holl sylwadau a geir o'r broses ymgynghori eu hystyried, ond ni roddir ymatebion unigol. Dychwelwch y proforma i, Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ, Derbyn i'r Ysgol, Cyngor Bro Morgannwg, Dysgu a Sgiliau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri. CF63 4RU neu e-bostiwch Admissions@valeofglamorgan.gov.uk . Defnyddiwch ddalen ychwanegol os oes angen.

**Correspondence is welcomed in Welsh or English**/Croesawir Gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg